



Tasg 2

Dydd Sul

Dydd Sul, mae Carwyn Claude Crawford eisiau mynd i'r sinema gyda ffrind arall, Rhys. Mae e'n edrych yn ei waled ac mae e'n cael sioc – dim arian! Mae e'n mynd i'r twll yn y wal i gael arian o'r banc ond mae e'n cael sioc arall – dim arian!! Mae e'n penderfynu, "Dw i'n gwario gormod."

1. Mewn grŵp, rydych chi'n mynd i roi cyngor i Carwyn Claude Crawford ar sut i safio arian. Siaradwch am hyn a gwnewch restr.

Dylet ti ...

Ddylet ti ddim ...

Dylet ti fwyta ... yn lle bwyd pecyn.

Ddylet ti ddim bwyta bwyd pecyn – Dylet ti fwyta ... yn lle.

Dyma rai geiriau i'ch helpu chi.

canslo	to cancel	yn lle	instead
cerdded	to walk	dyddiad	date
rhedeg	to run	pecyn	pack
beicio / seiclo	to cycle	ffres	fresh
prynu	to buy	sêl	sale
gwario	to spend	llai (o)	less
gwneud	to make	mwy (o)	more
ysgrifennu	to write		
coginio	to cook		
gwirio	to check		
paratoi	to prepare		
safio	to save		

Geirfa			
waled	wallet	gwario	to spend
twll yn y wal	hole in the wall	cyngor	advice
penderfynu	to decide		

Ewch i'r dudalen nesaf.



2. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grŵp arall.
3. Rydych chi'n mynd i roi cyngor i bobl ifanc ar sut i safio arian, e.e.

poster

taflen

gwybodaeth ar
wefan yr ysgol

cyflwyniad (Powerpoint)

Defnyddiwch y wybodaeth yn 1.

Chwiliwch am luniau da i fynd gyda'r wybodaeth.

